Athletau Cymru

Nodiadau ffurflen gais am gyflogaeth

09/2017 (AT)

Canllaw ar gyfer llenwi'r ffurflen gais.

Gwnewch yn siŵr fod pob rhan o'r ffurflen gais wedi ei llenwi gydag inc du a'ch bod yn llofnodi'r ffurflen. Os ydych chi'n gwneud cais electronig, bydd gofyn i chi lofnodi'r ffurflen yn y cyfweliad.

Cyn llenwi eich ffurflen gais, darllenwch y swydd-ddisgrifiad yn ofalus. Mae hwn yn rhoi amlinelliad o'r dyletswyddau y bydd angen eu cyflawni ac, os darperir manyleb, bydd yn cynnwys amlinelliad o'r sgiliau, y galluoedd a'r rhinweddau y bydd eu hangen ar ddeiliad y swydd. Bydd angen i chi ddangos eich bod yn bodloni gofynion y swydd-ddisgrifiad (neu fod gennych y potensial i wneud hynny o leiaf) er mwyn cael eich rhoi ar y rhestr fer i gael cyfweliad.

Dylai eich hanes cyflogaeth gynnwys pob swydd bresennol a phob swydd yn y gorffennol a dylid egluro unrhyw fylchau.

Addasrwydd ar gyfer y Swydd

Mae hon yn adran bwysig lle cewch ehangu ar y wybodaeth, y sgiliau a'r profiad a gawsoch yn sgil eich cyflogaeth a rhoi enghreifftiau perthnasol o unrhyw gyflawniadau allweddol. Defnyddiwch dudalen ychwanegol ar wahân os oes angen.

Canolwyr

Gwnewch yn siŵr bod enwau'r canolwyr yr ydych yn eu darparu yn unigolion yr ydych yn eu hadnabod mewn cyd-destun proffesiynol. Yn ddelfrydol, dylai o leiaf un o'r canolwyr fod yn rheolwr neu diwtor coleg i chi ar hyn o bryd. Gellir enwi cyn-reolwyr neu gyn-diwtoriaid hefyd, ond lle bo modd, dylech osgoi defnyddio enwau cydweithwyr neu ffrindiau fel canolwyr.

Bydd gofyn i'ch canolwyr ddarparu gwybodaeth ynglŷn â'ch gallu proffesiynol a thechnegol, eich cymeriad a'ch personoliaeth, eich gallu i gadw amser a'ch dibynadwyedd. Bydd gofyn i chi hefyd ddarparu gwybodaeth ynglŷn â'ch iechyd cyffredinol ac unrhyw absenoldebau ar sail salwch yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.

Tystiolaeth o'r wybodaeth a ddarperir yn eich ffurflen gais

Bydd gofyn i ymgeiswyr llwyddiannus ddarparu tystiolaeth ddogfennol o'r cymwysterau sydd eu hangen i wneud y swydd. Rydym yn cadw'r hawl i wirio unrhyw wybodaeth a roddir ar y ffurflen gais a bydd methu â darparu tystiolaeth o'r fath yn arwain at dynnu cynnig yn ôl neu ddiswyddo.

Athletau Cymru

Nodiadau ffurflen gais am gyflogaeth

09/2017 (AT)

Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

Mae Athletau Cymru'n gweithio gyda'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (y Swyddfa Cofnodion Troseddol a'r Awdurdod Diogelu Annibynnol gynt), er mwyn galluogi penderfyniadau recriwtio mwy diogel drwy enwi ymgeiswyr a allai fod yn anaddas ar gyfer rhai mathau o waith penodol, yn enwedig gwaith sy'n golygu cyswllt agos a rheolaidd gyda phlant neu oedolion sy'n agored i niwed. Bydd hyn yn cael ei gyfleu'n glir i ymgeiswyr cyn y cynigir unrhyw gyflogaeth.

Manylion Personol

Mae'r wybodaeth a nodir yma yn gyfrinachol a ni fydd yn cael ei defnyddio yng nghyfnod y rhestr fer. Fel cyflogwr cyfleoedd cyfartal, rydym yn monitro bob cais a gwerthfawrogir eich cydweithrediad er mwyn llenwi'r adran hon.

Cydraddoldeb ac amrywiaeth

Rydym yn ymroddedig i gydraddoldeb cyfle i bawb mewn perthynas â'n gwasanaethau a'n swyddogaethau ac o ran yr arferion cyflogaeth yr ydym yn eu dilyn. Fel cyflogwr cyfrifol, byddwn yn cynnal materion mewn modd na fydd yn achosi anfantais anghyfreithlon nac anghyfiawnder i unrhyw weithiwr nac ymgeisydd ar sail y canlynol: oedran, hil, lliw, rhyw, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, statws priodasol, cefndir diwylliannol neu gymdeithasol neu gredo crefyddol.

Bydd cwynion ynglŷn â chydraddoldeb a materion cydraddoldeb hiliol yn cael eu trin yn brydlon ac yn ddifrifol.

Deddf Lloches a Mewnfudo

Mae'r Ddeddf Lloches a Mewnfudo yn ei gwneud yn drosedd i gyflogwyr recriwtio aelodau staff nad oes ganddynt yr hawl i weithio yn y DU. Felly, bydd unrhyw gynnig cyflogaeth yn ddibynnol ar ddarpariaeth y dystiolaeth ddogfennol sy'n dangos bod gan yr ymgeisydd llwyddiannus yr hawl i weithio yn y DU.

Athletau Cymru

Nodiadau ffurflen gais am gyflogaeth

09/2017 (AT)

Beth sy'n digwydd ar ôl i mi anfon fy nghais?

Bydd y panel sy'n llunio'r rhestr fer yn edrych ar eich ffurflen gais ar ôl y dyddiad cau er mwyn gweld i ba raddau y mae eich sgiliau, eich profiad a'ch gwybodaeth yn bodloni gofynion y swydd a ddisgrifir ym manyleb y person. Bydd yr ymgeiswyr sy'n cael eu rhoi ar y rhestr fer yn cael gwybod am y trefniadau mewn llythyr. Yn anffodus, oherwydd nifer y ceisiadau a dderbynnir, nid ydym yn rhoi sylwadau i'r rhai nad ydynt yn cyrraedd y rhestr fer.

> **Os na fyddwn wedi cysylltu â chi o fewn 21 diwrnod ar ôl y dyddiad cau, dylech gymryd yn ganiataol nad yw eich cais wedi bod yn llwyddiannus.**
>
> **Sylwer os gwelwch yn dda mai dim ond gyda chanolwyr yr ymgeisydd llwyddiannus y byddwn yn cysylltu.**

Os oes angen unrhyw gyngor neu wybodaeth bellach arnoch, mae pob croeso i chi gysylltu â'r cyswllt a nodir yn y swydd-ddisgrifiad. Ar ôl llenwi eich ffurflen gais dylid ei hanfon i'r Rheolwr Swyddfa erbyn y dyddiad cau a nodir, un ai drwy'r post i: Rheolwr Swyddfa, Stadiwm Chwaraeon Rhyngwladol Caerdydd, Heol Lecwydd, Caerdydd, CF11 8AZ neu mewn e-bost i andrew.thomas@welshathletics.org.

Diolch am roi amser i ddarllen y nodiadau hyn a dymuniadau gorau i chi gyda'ch cais.